DAFYDD, OWEN (1751 - 1814?), bardd cefn gwlad a baledwr

Enw: Owen Dafydd
Dyddiad geni: 1751
Dyddiad marw: 1814?
Priod: Joyce Dafydd (née William)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd cefn gwlad a baledwr
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Dywedir mai o Wynfe, Sir Gaerfyrddin yr hannai, ond trigai yn Llandybïe yn 1783. Bernir mai ef yw'r ' Owen Watkin ' a briododd Joyce William o Gwm Aman, yno 21 Tachwedd 1783. Crwydrodd lawer ar hyd ei oes wrth ddilyn galwedigaeth melinydd. Bu'n byw am dymor yng Nghwmgrenig-fach, Cwm Aman, ac ar ôl hynny yn Llwyn Uchedwel gerllaw'r Glais yng Nghwmtawe; Cefn Myddfai, Llangyfelach; a Melin Gurwen. Gorffennodd ei yrfa ym Melin y Gurnos, Cwmtawe. Codwyd cofadail ar ei fedd ym mynwent y plwyf, Ystradgynlais yn 1869; dywedir ar honno ddarfod ei eni yn 1751 ac iddo farw 29 Mawrth 1813. Eithr dywed Thomas Levi (*Y Traethodydd*, 1866, 406) iddo farw 29 Mawrth 1813 yn 62 oed, a dywed Glasnant Jones (*Y Geninen*, Mawrth 1906) iddo farw yn 1816 yn 65 oed. Bernir mai ef yw'r ' Owain William, Gurnos Mill ' y ceir cofnod ei gladdu yng nghofrestr Ystradgynlais 26 Chwefror 1814. Cyhoeddwyd nifer o'i ganeuon ar ffurf baledi, megis ei gân i Danchwa Brynmorgan (Voss, Abertawe, 1812). Ond ei gân enwocaf yw honno i Dduwdod Crist, sef *Cân yn dangos fod Crist yn Dduw &c.*, (Voss, 1806, ac amryw arg. yn ddiweddarach). Chwaraeodd y gan hon ran nid bychan yn y ddadl rhwng Trindodwyr a'r Undodiaid yn nechrau'r 19eg ganrif. Cyhoeddwyd *Cynhyrchion Barddonol yr Hen Felinydd Owen Dafydd Cwmaman* yn Ystalyfera yn 1904.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Y ffynonellau uchod

Y Cenhadwr Americanaidd sef cylchgrawn gwybodaeth fuddiol a dyddorawl i Gymry America / The American messenger (Efrog Newydd 1840-1901), Hydref 1858

Y Beiriniad, 1863

T. Thomas, *Hen Gymeriadau Plwyf y Betws* (1894)

ysgrifau G. M. Roberts yn *Llais Llafur*, 22 a 29 Mai 1937

J. Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist: athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist, yn bennaf yn ei pherthynas â Chymru* (Liverpool 1931), 355

G. M. Roberts, *Hanes Plwyf Llandybïe, etc* (Caerdydd 1939), 230

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746833

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu